# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD LLUN, 22AIN IONAWR, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**NODER**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 15 Ionawr 2024)

## PWYLLGOR PENSIYNAU

### AELODAETH (9)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Iwan Huws<br>Ioan Thomas | R Medwyn Hughes | Elin Hywel |

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Pughe Roberts | John Brynmor Hughes |

## Llafur / Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Cyfetholedig (2)

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Robin Wyn Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Goronwy Owen Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 27ain o Dachwedd 2023 fel rhai cywir

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol( yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn amhriodol o ran buddiannau cydnabyddedig trydydd bartïon ac yn gallu tanseilio hyder i ddod a gwybodaeth ymlaen gerbron y Cyngor a felly gallu'r Cyngor i wneud penderfyniadau ar ran y gronfa. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er budd y cyhoedd.

## 6. CAFFAEL SYSTEM WEINYDDOL

I ystyried yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion
(copi i Aelodau yn unig)

## 7. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO- ADRODDIAD YMGYSYLLTU 01.07.2023 - 30.09.2023

I ystyried a nodi cynnwys yr adroddiad
(copi i'r Aelodau yn unig)

**8. AIL AGOR Y CYFARFOD I'R WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid ail agor y cyfarfod i'r wasg a'r cyhoedd

**9. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** 9 - 41

I dderbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru

**10. RHEOLAETH TRYSORLYS 2023-24 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** 42 - 48

I ystyried a nodi cynnwys yr adroddiad

**11. CYMERADWYO CYLLIDEB 2024/25** 49 - 50

I ystyried a chymeradwyo cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

**12. ADOLYGU AMCANION STRATEGOL AR GYFER YMGYNGHORWYR BUDDSODDI'R GRONFA** 51 - 58

I ystyried yr adroddiad ar gynnydd yn erbyn amcanion cyfredol a nodi amcanion y dyfodol

**13. GWYDDONIAETH HINSAWDD A MODELU ECONOMAIDD** 59 - 68

I nodi cynnwys yr adroddiad ac ystyried unrhyw risgiau cysylltiedig

**14. CYNHADLEDD LAPFF 2023** 69 - 73

I dderbyn adborth a gwybodaeth berthnasol am y gynhadledd

**PWYLLGOR PENSIYNAU 27-11-23**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:**

Stephen Churchman (Cadeirydd), Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), John Brynmor Hughes, Richard Medwyn Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:**

Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Ned Michael (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)
Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Pughe Roberts a Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2023 fel rhai cywir.

**5. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023 ac ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Croesawyd Yvonne Thomas (Archwilio Cymru) i'r cyfarfod

Cyflwynwyd adroddiad ynghyd a Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2022/23 (ôl archwiliad), gan y Rheolwr Buddsoddi oedd yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2023. Atgoffwyd yr Aelodau bod drafft o'r cyfrifon wedi eu cyflwyno i gyfarfod 26ain Mehefin 2023 ac er nad oedd newidiadau arwyddocaol i'r prif ddatganiad yn dilyn archwiliad gan Archwilio Cymru, bod addasiad ar Nodyn 13: Rhaniad Incwm Buddsoddi, ond nad oedd y cyfanswm wedi newid. Ategwyd bod angen diweddaru Nodyn 23 - Trafodion Partïon Cysylltiedig - aelodaeth llywodraethu'r Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiynau cyn cyhoeddi yn derfynol.

Gwahoddwyd Yvonne Thomas (Archwilio Cymru) i gyflwyno adroddiad 'ISA260'. Adroddwyd bod yr archwilwyr yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni, unwaith y byddai'r Llythyr Cynrychiolaeth wedi ei arwyddo. Eglurwyd na all archwilwyr fyth roi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir ond yn hytrach yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennwyd lefel perthnasedd o £27.6635 miliwn ar gyfer archwiliad eleni i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a all arwain fel arall at gamarwain rhywun sy'n defnyddio'r cyfrifon. Cyfeiriwyd eto at y camddatganiad yn y cyfrifon gwreiddiol (Nodyn 13 Incwm Buddsoddi) a chadarnhawyd bod y rheolwyr bellach wedi ei gywiro.

Tynnwyd sylw at y penawdau isod:

- Yn cynnig un argymhelliad y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd redeg ac arbed yr adroddiad ar fanylion aelodaeth a gofnodwyd yn system Altair i gefnogi'r ffigyrau ag adroddwyd yn y cyfrifon. Nodwyd bod y Rheolwyr wedi derbyn yr argymhelliad ac wedi nodi bwriad o ddarparu adroddiad i gefnogi'r niferoedd aelodaeth mewn datganiadau ariannol yn y dyfodol – yr adroddiad i'w 'arbed' ar y diwrnod fel tystiolaeth.
- Bod y wybodaeth a gyflwynwyd o ansawdd uchel ac yn bositif iawn - yn adlewyrchiad da o'r trefniadau da sydd o fewn yr Adran Gyllid
- Yn diolch i'r Swyddogion am gwblhau'r cyfrifon mewn amserlen dynn

Diolchwyd i'r Archwilwyr am eu cydweithrediad a'u gwaith trylwyr. Gwerthfawrogwyd ymroddiad a chywirdeb y gwaith a diolchwyd i'r Rheolwr Buddsoddi a'r tîm am baratoi'r cyfrifon.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylw canlynol:

- Bod yr adroddiad yn un calonogol a phositif - yn rhoi hyder bod pethau yn dda a bod canlyniad yr archwiliad yn amlygu gwaith da'r swyddogion

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn a nodi'r adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ôl archwiliad ar gyfer 2022 / 23**
- **Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electroneg**

**6. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi. Nodwyd bod yr adroddiad yn un sydd bellach yn ymddangos yn rheolaidd ar raglen y Pwyllgor Pensiynau fel modd o sicrhau bod yr Aelodau yn derbyn gwybodaeth gyfredol a diweddar. Cyfeiriwyd at grynodeb o drafodaethau a phenderfyniadau cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu (sef corff sydd yn gwneud penderfyniadau'r Bartneriaeth) a gynhaliwyd 20 Medi 2023 gan dynnu sylw penodol at adolygiad o'r Cynllun Busnes ar gyfer 2023/24.

Atgoffwyd yr Aelodau mai Waystone (Link yn flaenorol) yw'r gweithredwr sy'n darparu gwasanaethau a reoleiddir gan yr FCA; Russell Investments sy'n darparu opsiynau buddsoddi ar gyfer asedau rhestredig; Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig; Hymans Robertson yw'r cynghorydd llywodraethu a goruchwylio a Robeco sy'n darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i'r PPC, yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymiadau stiwardiaeth.

Cyfeiriwyd hefyd at ddiweddariad y gweithredwr ynghyd a gwybodaeth am yr holl gronfeydd sydd wedi eu sefydlu gan y Bartneriaeth (Gwynedd yn rhan o 8 ohonynt, gyda 83% o Gronfa Gwynedd wedi'i bwlio gyda'r Bartneriaeth) ac at gofnod o berfformiad y cronfeydd hynny.

Yng nghyd-destun perfformiad y cronfeydd, nodwyd bod y flwyddyn ariannol yma wedi dechrau yn araf, ond bod y perfformiad ecwiti wedi dechrau gwella erbyn mis Mehefin a hynny oherwydd marchnadoedd America.

Yng nghyd-destun datblygiadau i'r dyfodol, adroddwyd bod gwaith yn parhau gyda marchnadoedd preifat, ymuno gyda'r is gronfa isadeiladedd penagored a mandad ecwiti preifat gyda Schroders fydd yn derbyn buddsoddiadau yn fuan. Yn olaf, nodwyd bod gwaith yn parhau i ddatblygu datrysiadau eiddo ar gyfer y bartneriaeth a bod proses tendr ar y gweill ar gyfer canfod darparwr eiddo.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i'r adroddiad, nododd y Cadeirydd bod Llywodraeth y DU, yn ddiweddar wedi bod yn feirniadol o arafwch y gwaith pwlio. Braf oedd cael adrodd bod Gwynedd, a Phartneriaeth Pensiwn Cymru ar y blaen yma.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi diweddariad chwarterol Partneriaeth Cymru**

## 7. CYNADLEDDAU PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad yn rhestru dyddiadau cynadleddau pensiynau ar gyfer 2024. Nodwyd bod y cynadleddau yn rhoi cyfle i'r Aelodau ehangu eu gwybodaeth a thrafod materion cyfoes. Trafodwyd y dyddiadau a bu i'r Aelodau ddatgan diddordeb yn y digwyddiadau hynny oedd yn gyfleus iddynt.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth a nodi'r dyddiadau**

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny). Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.**

## 9. ADOLYGIAD O DDYRANIAD ASEDAU STRATEGOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad yn cynnig dyraniad strategol newydd i asedau'r Gronfa ymhellach i'r gwelliant yn y sefyllfa gyllido ers prisiad tair blynedd 2022. Mynegwyd mai Dyrannu

Asedau Strategol yw'r penderfyniad pwysicaf ar gyfer unrhyw Gronfa Bensiwn gan ategu nad oes unrhyw ffordd gywir nac anghywir o benderfynu ar y Dyraniad Asedau Strategol ac mai mater o ddod o hyd i'r ateb gorau i gyfyngiadau a chyfleoedd yw hyn. Bydd yr ateb hefyd yn cael ei ddylanwadu gan athroniaethau personol y buddsoddwyr.

Diolchwyd am yr adroddiad

Trafodwyd yr asedau arfaethedig newydd

**PENDERFYNWYD cymeradwyo symud i'r dyraniad asedau strategol arfaethedig ar gyfer y Gronfa**

Nodyn:
Bod angen cywiro ffigwr Cyfanswm Amddiffyn

## 10. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO – ADRODDIAD YMGYSYLLTU Ch2 2023

Cyflwynwyd adroddiad chwarterol yn crynhoi'r gwaith mae Robeco (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC) yn cyflawni ar ran y Gronfa Bensiwn, gan gynnwys y gwaith ymgysylltu.

Trafodwyd cynnwys yr adroddiad

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad**

Nodyn:
I'r dyfodol, sicrhau bod mwy o fanylder a gwybodaeth gefndirol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben 10:50

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD | **22 IONAWR 2024** |
| TEITL | **DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| PWRPAS | **Derbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru** |
| ARGYMELLIAD | **DERBYN A NODI Y WYBODAETH** |
| AWDUR | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae hwn yn adroddiad rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ar y gwaith a wneir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PCC) ar ran yr wyth cronfa CPLlL yng Nghymru.

Mae PPC bellach wedi'i hen sefydlu, gyda Waystone fel gweithredwr i ddarparu gwasanaethau a reoleiddir gan yr FCA a Russell Investments sy'n darparu opsiynau buddsoddi ar gyfer asedau rhestredig. Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig. Hymans Robertson yw'r cynghorydd llywodraethu a goruchwylio ac mae Robeco yn darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i PPC yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymiadau stiwardiaeth.

## 2. DIWEDDARIAD CHWARTERTOL CYD- BWYLLGOR LLYWODRAETHU (CLl)

Cynhaliwyd cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl), sef corff gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth, yn ffurfiol ar 13 Rhagfyr 2023. Mae’r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o’r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i’r adroddiad hwn. Adolygwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2023/24 a gellir ei weld yn Atodiad 2.

## 3. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o’r diweddariad chwarterol diweddaraf gan y gweithredwr wedi’i atodi yn Atodiad 3.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg o'r ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi PPC ar 30 Medi 2023.

Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi mewn wyth o’r un ar ddeg is-gronfeydd ac ar 30 Medi 2023 roedd y rhain fel a ganlyn:

- **Cyfleoedd Byd-Eang - £378.1m**
- **Twf Byd- Eang- £362.7m**
- **Marchnadoedd Datblygol - £56.3m**
- **Goddefol Byd-Eang - £529.5m**
- **Credyd Aml Ased - £205.1m**
- **Bond Dychwelyd Absoliwt- £398.5m**

- **Cronfa Credyd Byd-Eang - £131.6m**
- **Cronfa Ecwiti Cynaliadwy- £275.3m**

**4. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 30 MEDI 2023**

Mae’r adroddiadau perfformiad i’w gweld yn atodiad 4.

Aeth ecwitïau i lawr yn dilyn enillion blaenorol ar ddisgwyliadau cynyddol y byddai cyfraddau llog yn aros yn uwch yn hirach, yn dilyn sylwadau chwyrn gan fanciau canolog. Mae prisiau olew eithriadol o uchel wedi ychwanegu at bryderon y bydd y frwydr dros chwyddiant yn parhau. Fe wnaeth pryderon am economi Tsieina, yn benodol y sector eiddo, beri gwerthiannau mewn ecwitïau Tsieineaidd yng nghanol y chwarter, er hyn fe wnaeth mesurau symbylu newydd o Beijing a hwb mewn gweithgynhyrchu leddfu rhai o'r cwympiadau. Cryfhaodd doler yr Unol Daleithiau yn erbyn y rhan fwyaf o arian cyfred. Fe wnaeth y Federal Reserve (Fed) a Banc Lloegr (BoE) godi cyfraddau 25 pwynt sail (bps) yn gynharach yn y chwarter, ond fe'u gadawsant heb eu newid yn eu cyfarfodydd ym mis Medi. Fe wnaeth Banc Canolog Ewrop (ECB) godi cyfraddau ddwywaith, 25bps bob tro – daeth hyn â nhw i'r ffigwr uchaf erioed o 4.0%.

Mae perfformiad yr is-gronfeydd y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi ynddynt yn cael eu monitro gan swyddogion, ac fel rhan o adolygiad buddsoddi chwarterol gan Hymans Robertson ac nid oes pryderon wedi eu nodi.

**5. DATBLYGIADAU’R DYFODOL**

- Mae ymuno gyda'r is-gronfa Isadeiledd Penagored a mandad Ecwiti preifat Schroders yn parhau.
- Mae'r ymarfer caffael ar gyfer y rheolwyr Eiddo yn digwydd ar hyn o bryd.

**6. ARGYMHELLIAD**

I dderbyn a nodi y wybodaeth.

# Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) – Diweddariad Cyd Bwyllgor Llywodraeth (CBLl)

Dyddiad Cyfarfod CBLl: Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2023

Lleoliad: Cyfarfod rhithiol

Cadeirydd: Cynghorydd Ted Palmer, Clwyd

Is gadeirydd: Cynghorydd Elwyn Williams, Dyfed

| Eitem agenda | Manylion |
|---|---|
| Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya | Rhoddodd Anthony Parnell o’r Awdurdod Lletya ddiweddariad mewn perthynas â gwaith sydd wedi’i gwblhau ers cyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a chamau / blaenoriaethau nesaf PPC.<br><br>Contract gweithredwr - cyhoeddwyd y Gwahoddiad i Dendro ar 16 Hydref 2023 a daeth i ben ar 20 Tachwedd 2023. Mae PPC ar hyn o bryd yn gwerthuso'r cyflwyniadau a dderbyniwyd.<br><br>Mae'r ymarfer caffael ar gyfer y rheolwyr Eiddo hefyd ar y gweill gyda'r Holiadur Cyn-gymhwyso a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd 2023. Disgwylir i'r adroddiad argymhelliad fynd i'r CBLl Gorffennaf 2024 i'w gymeradwyo, gyda'r contract yn cael ei ddyfarnu ym mis Awst 2024.<br><br>Cyflwynodd Anthony hefyd y diweddariad o Gynllun Busnes 2023/24 ar 30 Medi 2023 (ynghlwm). |
| Cofrestr Risg<br>Adolygiad Ch4 2023 | Mae'r Gweithgor yn gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLl bob chwarter. Mae gan y Gweithgor Is-grŵp Risg penodedig i gymryd perchnogaeth o'r Gofrestr Risg a'r adolygiad chwarterol o'r ddogfen.<br><br>Yn ystod Chw4 2023, mae adolygiad wedi digwydd o Risgiau Buddsoddi. |

| | |
|---|---|
| | Cyflwynodd Hymans y newidiadau a gymeradwywyd gan y CBLl. Mae'r Gofrestr Risg wedi'i lwytho ar wefan PPC. |
| Adolygiadau Polisi:<br>• Polisi Hyfforddiant<br>• Polisi Ail-gydbwyso a Newid | Mae PPC wedi cymeradwyo nifer o bolisïau / cynlluniau sydd i'w hadolygu'n rheolaidd. Y chwarter hwn, mae'r Gweithgor wedi cynnal adolygiad o'r Polisi Hyfforddiant a'r Polisi Ail-gydbwyso a Newid.<br><br>Mae'r Polisi Hyfforddiant yn amlinellu agwedd PPC at hyfforddiant a gofynion. Yn dilyn yr adolygiad hwn, mae'r polisi wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r dull o nodi anghenion hyfforddi.<br><br>Mae'r polisi Ail-gydbwyso a Newid yn nodi dull PPC o ail-gydbwyso'r asedau a ddelir o fewn is-gronfeydd y cronfeydd. Mae'r polisi yn amlinellu'r fframwaith sydd wedi'i roi ar waith i sicrhau bod dyraniadau rheolwyr o fewn is-gronfeydd yn cael eu monitro a'u hail-gydbwyso lle bo'n briodol. Yn ystod yr adolygiad hwn, mae'r polisi wedi'i ddiweddaru i ystyried mandadau'r Farchnad Breifat.<br><br>Cymeradwywyd y polisïau wedi'u diweddaru ac maent wedi'u llwytho i fyny ar wefan PPC.<br><br>Nid oedd unrhyw bolisïau newydd y chwarter hwn. |
| Diweddariad Gweithredwr | Cwblhawyd gwerthiant Link Fund Solutions i Waystone Management (UK) Limited (Waystone) ar 9 Hydref 2023. Cyflwynodd Waystone eu hadroddiad diweddaru chwarterol ar 30 Medi 2023 (ynghlwm). Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad, manylion daliadau is-gronfeydd presennol PPC, yn ogystal â diweddariad corfforaethol ac ymgysylltu. |
| Adroddiadau Perfformiad ar 30 Medi 2023 | Cyflwynodd Russell Investments bapur crynodeb perfformiad Ch3 2023 (ynghlwm) yn crynhoi perfformiad pob is-gronfa ACS unigol ar gyfer y chwarter yn diweddu 30 Medi 2023. |

| **Eitemau Eithriedig -** trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod y rhan nad oedd yn gyhoeddus o'r cyfarfod. | |
|---|---|
| Adroddiad Gwarantau Benthyca fel ag y mae 30 Medi 2023 | Dechreuodd Benthyca Stoc ym mis Mawrth 2020 a chyflwynodd Northern Trust yr Adroddiad Gwarantau Benthyca ar gyfer Ch3 2023 (chwarter yn dod i ben 30 Medi 2023). |
| Adroddiad Ymgysylltu Robeco– Ch3 2023 | Ym mis Mawrth 2020, penodwyd Robeco yn Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC i gyflawni swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran PPC. Dechreuodd Robeco eu gwasanaeth ymgysylltu ym mis Ebrill 2020, ac maent wedi darparu adroddiad ymgysylltu ar gyfer Chwarter 3 2023 (chwarter yn dod i ben 30 Medi 2023). Y thema ymgysylltu a ddewiswyd ar gyfer y chwarter hwn oedd Allyriadau Di-Garbon Net. |
| Buddsoddi Cyfrifol ac adroddiadau Risg Hinsawdd | Pob chwarter, mae Hymans Robertson yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol Buddsoddi Cyfrifol aRisg hinsawdd ar gyfer is gronfeydd PPC.<br><br>Ar gyfer Chwarter 3 2023 (chwarter yn gorffen 30 Medi 2023), cynhyrchwyd adroddiadau ar gyfer Marchnadoedd Datblygol a Cyfleoedd DU.<br><br>Cyflwynodd Hymans yr adroddiad i aelodau'r CBLl. |
| Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan | Mae Hymans Robertson wedi drafftio adroddiad hinsawdd Cymru gyfan sy'n darparu asesiad o risgiau hinsawdd ar draws y pwll, gan gynnwys argymhellion i'w hystyried. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r CBLl.<br><br>Bydd fersiwn gyhoeddus o'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd. |

Dolen gwe-ddarllediad ar gyfer cyfarfod CBLl 13 Rhagfyr 2023 isod:

**Agenda for Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru on Dydd Mercher, 13eg Rhagfyr, 2023, 10.00 yb**

Gwefan PPC- Cronfa Pensiwn Cymru | Cartref (partneriaethpensiwncymru.org)

Cyfarfod nesaf:

- Dydd Mercher, 13 Mawrth 2024 – Cyfarfod hybrid, dan ofal Cyngor Powys



# Cynllun Busnes

# Partneriaeth Pensiwn Cymru

# 2023-2024

# Adolygiad Ch2

# (Gorffenaf i Medi 2023)

## Llywodraethu

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Datblygu Polisi Tramgwyddau a Gwallau PPC | Do | Cymeradwyo gan y CBLl yn mis Medi 2023 |
| • Contract darparwr Gwasanaethau Cyfreithiol (adolygiad 3 blynedd cychwynnol) | Do | Adolygiad 3-blynedd cychwynnol wedi'i gwblhau, estyniad 2-flynedd i'r contract wedi'i roi mewn lle |
| • Adolygiad parhaus o'r Cytundeb Rhwng-Awdurdodau | Parhaus | |
| • Adolygiad blynyddol o bolisïau a chynlluniau PPC | Parhaus | |
| • Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg | Parhaus | |
| • Ymateb i unrhyw ystyriaethau'n ymwneud â'r buddsoddi ar y cyd, ac ymgymryd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol yn dilyn canlyniadau ymgynghori. | Parhaus | Cyflwynwyd ymateb mewn perthynas â'r ymgynghoriad Buddsoddiadau CPLlL diweddar. |

## Sefydlu Parhaus

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Lansio'r Is-gronfeydd Dyled Preifat ac Isadeiledd | Do | Rhaglenni buddsoddi seilwaith a dyledion preifat wedi'u lansio |
| • Lansio Is-gronfa Ecwiti Preifat | Do | Rhaglen buddsoddi ecwiti preifat wedi'u lansio |
| • Lansio Is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy | Do | Lansiwyd 20 Mehefin 2023 |
| • Llunio gofynion Eiddo'r Bartneriaeth a'r modd gorau o'u gweithredu, ynghyd â lansio'r Is-gronfeydd eiddo | Yn mynd rhagddo | PQQ wedi'i gyhoeddi ar 17 Tachwedd 2023 |
| • Ystyried gofynion / effaith agenda Ffyniant Bro y Bartneriaeth | Parhaus | |

| | | |
|---|---|---|
| • Lansio Is-gronfeydd Marchnadoedd Preifat eraill (I'w cadarnhau) | | Trafodaethau i'w cynnal gyda CAs unigol |
| • Ymgynghori â'r AC am yr angen am ragor o is-gronfeydd, adolygu a datblygu dull o gyfuno unrhyw asedau addas na chawsant eu cyfuno | Parhaus | |
| • Ystyried cyfleoedd Buddsoddi Lleol | Parhaus | |

## Gwasanaethau Gweithredwr

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Contract y gweithredwr / y broses gaffael | Yn mynd rhagddo | ITT wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2023, a gwerthusiad o'r cyflwyniadau yn cael ei gynnal ar hyn o bryd |
| • Trosolwg y gweithredwr | Parhaus | |

## Buddsoddiadau ac Adrodd Arnynt

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Adolygu mandadau'r Is-gronfa i sicrhau eu bod yn gydnaws â Chredoau Buddsoddi Cyfrifol a Risgiau Hinsawdd PPC. | Parhaus | |
| • Adroddiad y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) | | Aros am ymateb i ymgynghoriad TCFD |
| • Adrodd ar y Cod Stiwardiaeth | Do | Adroddiad 2022/23 wedi ei gyflwyno 31 Hydref 2023 |
| • Ystyried adrodd ychwanegol sy'n dangos ymrwymiad PPC i Fuddsoddi Cyfrifol | Parhaus | |
| • Adrodd, craffu a herio parhaus ar berfformiad y Rheolwr Buddsoddi | Parhaus | |

| | | |
|---|---|---|
| • Adolygiad blynyddol o Ofynion Tryloywder Costau'r Bartneriaeth | | I'w adolygu yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2024 |
| • Adolygiad perfformiad blynyddol o Is-gronfeydd PPC (Ecwiti ac Incwm Sefydlog) | | I'w adolygu yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2024 |
| • Ymgysylltiad parhaus â'r Awdurdodau Cyfansoddol o ran safonau isafswm ESG / Buddsoddi Cyfrifol a'u huchelgeisiau hinsawdd | Parhaus | |

### Cyfathrebu, Hyfforddi ac Adrodd

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Llunio Adroddiad Cynnydd Blynyddol PPC ar Fuddsoddi Cyfrifol | Do | Adroddiad wedi'i gyflwyno yn y CBLl ym mis Gorffennaf 2022 ac wedi'i gyhoeddi ar y wefan |
| • Llunio cynllun hyfforddi blynyddol PPC | | I'w lunio yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2024 |
| • Llunio diweddariad blynyddol PPC | Do | Cyhoeddwyd diweddariad blynyddol 2022/23 ym mis Awst 2023 |
| • Llunio adroddiad blynyddol PPC | Do | Cyhoeddwyd Adroddiad blynyddol 2022/23 ym mist Tachwedd 2023 |

### Adnoddau, cyllideb a ffioedd

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Adolygiad blynyddol o adnoddau a'r gallu i gynhyrchu | | I'w adolygu yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2024 |
| • Llunio cyllideb flynyddol PPC | | I'w lunio yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2024 |
| • Adolygu a monitro ffïoedd gweithredwr / darparwr allanol | Parhaus | |

## Cynllun Hyfforddi

Pynciau hyfforddi i gael eu cwblhau yn ystod 2023-24 yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yng Nghynllun Hyfforddiant 2023-2024 a'r cynnydd hyd yma:

| | **Cwblhawyd** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| • Dosbarthiadau Ased Marchnad Breifat - Ecwiti / Eiddo Preifat | Do | 8 Mehefin 2023 |
| • Ffyniant lleol / cyfleoedd datblygu | Do | 8 Mehefin 2023 |
| • Adrodd ar TCFD | | Wedi'i amserlennu ar gyfer 13 Rhagfyr 2023 |
| • Adrodd ar berfformiad | | Wedi'i amserlennu ar gyfer 13 Rhagfyr 2023 |
| • Pleidleisio ac Ymgysylltu | Do | 21 Medi 2023 |
| • Buddsoddi Cyfrifol o fewn is-gronfeydd WPP | Do | 21 Medi 2023 |
| • Cynnydd Cronfeydd CPLlL eraill a Cyfleoedd i Gydweithio | | |
| • Canllawiau Pŵlio | | |

## Cyllideb

Adroddiad Monitro Cyllideb 2023-2024:

| | Cyllideb 2023-2024<br>£000 | Rhagolygon 2023 – 2024<br>£000 | Amrywiaethau 2023 - 2024<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Lletya * | 200 | 186 | 14 |
| Ymgynghorwyr Allanol * | 1,448 | 1,467 | (19) |
| **CYFANSWM i'w ail-godi** | **1,648** | **1,653** | **(5)** |
| | | | |
| Gwasanaethau Gweithredwr ** | 37,257 | 37,257 | 0 |
| **CYFANSWM i'w ddidynnu o Werth Net yr Asedau** | **37,257** | **37,257** | **0** |

**Ariennir costau'r Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Allanol gan bob un o wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.*

***Mae'r costau Gwasanaethau Gweithredwr yn seiliedig ar gyfran pob Awdurdod Cyfansoddol fel canran o asedau'r Bartneriaeth (sydd ym meddiant y Gweithredwr) ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o Werth Net Asedau'r Awdurdod Cyfansoddol (sydd ym meddiant y Gweithredwr).*

Buddsoddiadau

## Is-gronfeydd Ecwiti

***Cronfa Twf Byd-eang***

**Rheolir gan: Link**

**Gwerth y Portffolio: £2 biliwn***

***Cronfa Cyfleoedd Byd-eang***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £2 biliwn***

***Cronfa Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn***

***Cronfa Marchnadoedd Datblygol***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn***

***Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £1.2 biliwn***

## Is-gronfeydd Incwm Sefydlog

***Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.4 biliwn***

***Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.5 biliwn***

***Cronfa Credyd Aml-ased***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn***

***Cronfa Credyd Byd-Eang***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.8 biliwn***

***Cronfa UK Credit***

**Rheolir gan: Link**

**Gwerth y Portffolio: £0.5 biliwn***

## Marchnadau Preifat

***Seilwaith – caeedig***

**Rheolir gan: GCM Grosvenor**

***Seilwaith - penagored***

**Rheolir gan: CBRE, IFM and Octopus**

***Credyd Preifatt***

**Rheolir gan: Russell Investments**

***Ecwiti Preifat***

**Rheolir gan: Schroders**

* Gwerth y portffolios ar y dyddiad lansio

Partneriaeth Pensiwn Cymru

https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

# Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaethau Pensiynau Cymru adolygiad Ch3 2023 - 13 Rhagfyr 2023



# Diweddariadau'r Farchnad

## Caffaeliad wedi'i Gwblhau

Fel y trafodwyd ers ein cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar 20 Medi 2023;

Cwblhawyd y gwerthiant i Waystone Management (UK) Limited (WMUK) ar 9 Hydref 2023.

Waystone yw'r darparwr arweiniol o wasanaethau llywodraethiant sefydliadol, risg a chydymffurfiaeth i'r diwydiant rheoli asedau.

Partneru â buddsoddwyr sefydliadol, cronfeydd buddsoddi a'r rheolwyr asedau y mae Waystone yn ei adeiladu, cefnogi ac amddiffyn strwythurau a strategaethau buddsoddi ledled y byd. Gyda thros 20 mlynedd o brofiad ac amrediad cynhwysfawr o wasanaethau arbenigol i'w enw, mae Waystone bellach yn cefnogi rheolwyr asedau gyda mwy na US$2Tn mewn Asedau Dan Reolaeth (AUM).

Mae Waystone yn rhoi canllawiau a theclynnau i'w gleientiaid fel bod modd iddynt ganolbwyntio ar reoli eu nodau buddsoddi yn hyderus.


# Crynodeb LF Asedau Dan Reolaeth (AUM)
# Cronfa Partneriaeth Pensiynau Cymru Medi 2023

| Cronfa | AUM | Dyddiad cychwyn |
|---|---|---|
| Twf Byd-eang | £3,134,315,780 | 6 Chwe 2019 |
| Cyfleoedd Byd-eang | £2,911,502,397 | 14 Chwe 2019 |
| Cyfleoedd y DU | £775,493,564 | 10 Hyd 2019 |
| Credyd Aml-ased | £463,462,906 | 12 Awst 2020 |
| Marchnadoedd Datblygol | £677,376,333 | 20 Hyd 2021 |
| Credyd Byd-Eang | £857,063,502 | 21 Awst 2020 |
| Bondiau Llywodraeth Byd-Eang | £577,072,879 | 20 Awst 2020 |
| Bond Enillion Absoliwt | £517,323,204 | 30 Medi 2020 |
| Credyd Sterling | £357,077,225 | 19 Awst 2020 |
| Cronfa Cyfleoedd Ecwiti Gweithredol | £1,259,811,721 | 20 Mehefin 2023 |
| | | |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau Actif** | **£11,530,499,511 fel ar 30 Medi 2023** | |


# Braslun o'r Gronfa Medi 2023 - Ecwitiau

Allwedd:
- Dyfed
- Powys
- Gwynedd
- RCT
- Torfaen
- Clwyd
- Abertawe
- Caerdydd


## Global Growth





## Global Opportunities





## UK Opportunities




## Marchnadoedd Datblygol





## Sustainable Active Equity




# Braslun o'r Gronfa Medi 2023 - Incwm Sefydlog


## Sterling Credit





## Credyd Byd-Eang





## Multi Asset Credit




## Global Gov. Bond




## Absolute Return Bond




Allwedd:
- Dyfed
- Powys
- Gwynedd
- RHCT
- Torfaen
- Clwyd
- Abertawe
- Caerdydd

Tud. 27

# Diweddariad Is-gronfeydd

| Lansio Cronfeydd a Newidiadau | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Statws** | **Sylwadau** |
| **Lansio Cronfeydd a Newidiadau sydd wedi'u Cwblhau** | N/a | | N/a |
| **Cronfa Barhaus Lansio a Newidiadau** | Ychwanegu Robeco i'r gronfa Credyd Byd-eang, tynnu T Rowe Price | ✓ | Rheolwr Buddsoddi Newydd 'Robeco' i gael ei weithredu yn Ch3 2023. Disgwylir i hyn fod yn Ch1 2024 erbyn hyn" |
| | Ychwanegu Rheolwr Buddsoddi Newydd i'r Gronfa Twf Byd-eang, fel ychwanegiad at Reolwyr presennol | ✓ | Rheolwr newydd ychwanegol arfaethedig i'w drafod gyda'r Llwyfannwr a Hymans cyn rhannu gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol gyda'r rhesymeg dros y newid - Dyddiad byw i'w gadarnhau |
| | Rheolwr Newidiadau ar Gronfa Cyfleoedd y DU | ✓ | Cronfa Cyfleoedd y DU WS PPC: - Terfynu Lazard and Majedie UK Core, hurio Fidelity, a chynyddu pwysedd i'r Liontrust UK CF Solution, JO Hambro UK Dynamic a Gwerth Ninety-One UK - Dyddiad byw 16 Hydre |
| | Rheolwr Newidiadau ar y Gronfa Bondiau Enillion Absoliwt | ✓ | Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt WS PPC - Terfynu Putnam a chynyddu pwysedd Wellington, Insight ac Aegon - Dyddiad byw 16 Hydref |
| | Opsiynau Cynnyrch Arian Parod ar gyfer amrediad presennol y gronfa | ✓ | Opsiynau Cynnyrch Arian Parod yn cael eu hymchwilio gan WMUK Governance ar hyn o bryd. |

Tud. 28

**Status key:**
- Completed or already in place
- On target;
- Delay Expected;
- Not Applicable

# Diweddariadau'r Farchnad

| Diweddariadau'r Farchnad | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gweithgaredd** | **Statws** | **Sylwadau** |
| **Rwsia / Wcráin** | Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Rwsiaidd | ✓ | WMUK i barhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn cynghori Awdurdodau Cyfansoddol o unrhyw ddatblygiadau. Mae ein Pwyllgor Prisio Gwerth Teg yn trafod yn rheolaidd, ac mae asedau yn dal i gael eu prisio felly. Dim un o Gronfeydd PPC yn dal unrhyw gwmnïau o Rwsia |
| **Dwyrain Canol** | Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Rwsiaidd | ✓ | Ar hyn o bryd, mae 10 gwarantau mewn cwmnïau o Israel ar draws pedair is-gronfa; Cronfa Bond Llywodraeth Fyd-eang, Cronfa Gredyd Aml-Asedau, Cronfa Credyd Byd-eang a Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang gyda gwerth o oddeutu £11.8m. Y sefyllfa wrthi'n cael ei monitro fel rhan o broses trosolwg BAU |

**Status key:**

- Completed or already in place
- On target;
- Delay Expected;
- Not Applicable

# WMUK Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol

## Ymgysylltu Allweddol â PPC yn Ch3 ac yn y dyfodol

**Presenoldeb Waystone yng nghyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion/CBLl yn y cyfnod:**

- CBLl PPC 19 Gorffennaf 2023
- GS 24 Gorffennaf 2023
- CBLl PPC 20 Medi 2023

**Presenoldeb Waystone yng nghyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion/CBLl yn y chwarter nesaf:**

- GS 24 Hydref 2023
- CBLl PPC 13 Rhagfyr 2023

**Waystone - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau yn y cyfnod:**

**Waystone - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau yn y chwarter nesaf :**

- Cyfarfod Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi Powys - 6 Hydref 2023

**Cyfarfodydd eraill yn y cyfnod**

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- Adolygu'r Berthynas Strategol - 20 Medi 2023

**Cyfarfodydd eraill yn y chwarter nesaf**

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- Cyfarfod Ymgysylltu â Chadeiryddion y Bwrdd Pensiwn - 3 Hydref 2023
- Sesiwn briffio / hyfforddiant PPC - (ail sesiwn)

# WMUK Protocol Ymgysylltu - Busnes fel Arfer

| Adolygu'r Berthynas Strategol | Amlder | Amcan |
|---|---|---|
| | ▪ Dwywaith y flwyddyn | ▪ Sicrhau aliniad strategol rhwng yr Awdurdod Lletyol a WMUK |
| **Mynychwyr PPC**<br>▪ Chris Moore<br>▪ Anthony Parnell<br>▪ Dau Swyddog Adran 151 / Dirprwy Swyddog Adran 151 | | **Mynychwyr Waystone**<br>▪ Karl Midl, Pen Swyddog y Wlad, DU, a Phrif Swyddog Gweithredol<br>▪ Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau |
| **Ymgysylltiad â'r CBLl** | **Amlder** | **Amcan** |
| | ▪ Chwarterol | ▪ Ymgysylltu â’r CBLl ar faterion perthnasol a phosibiliadau strategol |
| **Mynychwyr PPC**<br>▪ Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLl) | | **Mynychwyr Waystone**<br>▪ Karl Midl, Pen Swyddog y Wlad, DU, a Phrif Swyddog Gweithredol / Adam Tookey, Pennaeth Cynnyrch – fel bo'r angen<br>▪ Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau<br>▪ James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau<br>▪ Russell Investments |
| **Ymgysylltiad â'r Gweithgor Swyddogion** | **Amlder** | **Amcan** |
| | ▪ Chwarterol | ▪ Adnabod a chyflawni cyfleoedd i wella ac ehangu'r berthynas<br>▪ Rhoi diweddariad ar brosiectau neu faterion sy'n agored<br>▪ Adolygiad DPA Misol (Darperir y data yn fisol) |
| **Mynychwyr PPC**<br>▪ Gweithgor Swyddogion (GS)<br><br>Nodyn: Gellir cynnal cyfarfodydd o bell ac/neu eu cyfuno lle bo'r angen. | | **Mynychwyr Waystone**<br>▪ James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau<br>▪ Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau<br>▪ Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen)<br>▪ Swyddogion Link yn mynychu'n ad-hoc o adrannau swyddogaethol: Trosolwg Rheoli Buddsoddi, Treth, Cydymffurfiaeth, Cynnyrch, ac ati.<br>▪ Russell Investments |

# WMUK Protocol Ymgysylltu parhad...

| Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya | Amlder | Amcan |
|---|---|---|
| | ▪ Bob pythefnos | ▪ Awdurdod Lletyol Rheolaidd – WMUK i drafod beth sy'n bosib i'w gyflawni, a diweddariadau busnes |
| **Mynychwyr PPC**<br>▪ Anthony Parnell<br>▪ Tracey Williams | | ▪ Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau<br>▪ James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau<br>▪ Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen)<br>▪ Clair Baguley, Rheolwr Gwasanaeth Cleient (yn ôl yr angen) |

| Pwyllgorau Cronfa Bensiwn | Amlder | Amcan |
|---|---|---|
| | ▪ Adroddiad Blynyddol | ▪ Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a mentrau ar y gweill |
| ▪ Cyfarfodydd Pwyllgor y Cronfeydd Pensiwn unigol | | ▪ Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau<br>▪ James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau<br>▪ Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau (yn ôl yr angen)<br>▪ Russell Investments |

| Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr | | Amcan |
|---|---|---|
| | ▪ Adroddiad Blynyddol | ▪ Diwrnod agored i gael cyflwyniadau ar strategaeth a pherfformiad (gyda IM) |
| ▪ Agored i'r holl bartïon ynghlwm | | ▪ Tîm Cleient Waystone<br>▪ Northern Trust<br>▪ Russell Investments a Rheolwyr Buddsoddi eraill<br>▪ Ymgynghorwyr eraill yn ôl yr angen (e.e. bFinance) |

| Ymgysylltu â'r Bwrdd Pensiwn | Amlder | Amcan |
|---|---|---|
| | ▪ Dwywaith y flwyddyn | ▪ Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a mentrau ar y gweill |
| **Mynychwyr PPC**<br>▪ Cadeiryddion yr Awdurdodau Cyfansoddol<br>▪ Awdurdod Lletya | | ▪ Tîm Cleient Waystone<br>▪ Russell Investments |

# Diolch

Rheolwyr Perthnasau


Enw: James Zealander
Rôl: Uwch Reolwr Perthnasau
Rhif:+44 (0)20 7954 9727
E-bost: James.Zealander@linkgroup.co.uk

Heidi Robinson
Rheolwr Perthnasau
+44 (0) 7843 804917
Heidi.Robinson@linkgroup.co.uk


Pennaeth Perthnasau Cleientiaid


Enw: Richard Thornton
Rôl: Pennaeth Rheoli Perthnasau - Perchnogion Asedau
Rhif: +44 (0) 7765 220277
E-bost: Richard.Thornton@linkgroup.co.uk


Cyswllt Gweithredol


Enw: Karl Midl
Rôl: Pen Swyddog y Wlad, DU, a Phrif Swyddog Gweithredol
Rhif: +44 (0)7951 266225
E-bost: karl.midl@linkgroup.co.uk





# Cydbwyllgor Llywodraethu – Crynodeb o Berfformiad Ch3 2023 PPC


## Sylwadau ar y Farchnad Fyd-eang

Aeth ecwitis i lawr yn dilyn enillion blaenorol ar ddisgwyliadau cynyddol y byddai cyfraddau llog yn aros yn uwch am yn hirach, yn dilyn sylwadau chwyrn gan fanciau canolog. Mae prisiau olew eithriadol o uchel wedi ychwanegu at bryderon y bydd y frwydr dros chwyddiant yn parhau. Fe wnaeth pryderon am economi Tsieina, yn benodol y sector eiddo, beri gwerthiannau mewn ecwitis Tsieineaidd yng nghanol y chwarter, er hyn fe wnaeth mesurau symbylu newydd o Beijing a hwb mewn gweithgynhyrchu leddfu rhai o'r cwympiadau. Cryfhaodd doler yr Unol Daleithiau yn erbyn y rhan fwyaf o arian cyfred. Fe wnaeth y Federal Reserve (Fed) a Banc Lloegr (BoE) godi cyfraddau 25 pwynt sail (bps) yn gynharach yn y chwarter, ond fe'u gadawsant heb eu newid yn eu cyfarfodydd ym mis Medi. Fe wnaeth Banc Canolog Ewrop (ECB) godi cyfraddau ddwywaith, 25bps bob tro – daeth hyn â nhw i'r ffigwr uchaf erioed o 4.0%.

## Perfformiad dosbarth ased – y Chwarter hyd Heddiw (Medi) 2023




## Perfformiad dosbarth ased – y Flwyddyn hyd Heddiw (Medi) 2023




Meincnodau : Global equity hedged (MSCI World ACWI), UK equity (FTSE All Share), US equity hedged (Russell 1000 Net GBPH), Europe ex UK equity (MSCI Europe ex UK Equity Net GBPH), Japan equity (TOPIX Net GBPH), Emerging equity (MSCI Emerging Markets Net), Global HY bonds (BofAML Global High Yield 2% Constrained Index), EMD LC (JP Morgan GBI-EM Global Diversified Index), Global credit hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index), Global aggregate hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Bond Index GBPH), UK Government Bonds (ICEBofAML UK Gilts All Stocks (GB), Property hedged (FTSEEPRA Nareit Dev Re GBP)

## Cronfa Dwf Ecwiti Byd-eang:

| | Tri Mis | 1 Flwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | -0.5 | 10.8 | 9.1 |
| **Net** | -0.6 | 10.3 | 8.7 |
| **Mynegai Net MSCI AC World** | 0.6 | 10.5 | 10.1 |
| **Gwarged enillion (gros)** | -1.1 | 0.3 | -1.0 |

**Dyddiad Cychwyn: 31 Ionawr 2019**

**Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2023**

| Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa |
|---|
| Ynni a Gwasanaethau Cyfathrebu oedd y sectorau a berfformiodd orau dros y chwarter. Cyfleustodau, Eiddo Tirol a Nwyddau Hanfodol Cwsmeriaid a berfformiodd waethaf. Fe berfformiodd gwerth yn well na'r meincnod, a gyfrannodd at berfformio'n well na Pzena. Fe helpodd tuedd gwerth Vertias i gyflawni perfformiad gwell bychan. Fe wnaeth twf danberfformio'n gyffredinol, a effeithiodd ar ddychweliadau Baillie Gifford wrth i nifer o ddaliadau brofi cwymp sylweddol. Fe achosodd hyn danberfformiad ar lefel y gronfa gyfan. |

## Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang:

| | Tri Mis | 1 Flwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | 1.4 | 10.4 | 11.4 |
| **Net** | 1.4 | 10.1 | 11.0 |
| **Mynegai Net MSCI AC World** | 0.6 | 10.5 | 10.1 |
| **Gwarged enillion (gros)** | 0.8 | -0.1 | 1.3 |

**Dyddiad Cychwyn: COB 14 Chwefror 2019**

**Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2023**

| Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa |
|---|
| Gwerth ac elw difidend uchel oedd yr arddulliau a berfformiodd orau dros y chwarter. Fe wnaeth twf danberfformio'n gyffredinol. Mewn marchnadoedd datblygedig, perfformiodd capiau mawr yn well na rhai canolig, yn enwedig yn yr UDA, tra gwelwyd patrwm i'r gwrthwyneb yn y marchnadoedd datblygol (lle perfformiodd stociau cap bach yn well na rhai mawr). Ynni a berfformiodd orau o bell, oherwydd prisiau olew eithriadol. I'r gwrthwyneb, y sectorau a berfformiodd waethaf oedd cyfleustodau, eiddo tirol a nwyddau hanfodol cwsmeriaid, a hynny oherwydd eu hamlygiad i gyfrannau bond procsi. |

## Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy:

| | Tri Mis | 1 Flwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | -1.7 | - | -0.1 |
| **Net** | -1.8 | - | -0.2 |
| **Mynegai Net MSCI AC World** | 0.6 | - | 2.6 |
| **Gwarged enillion (gros)** | -2.3 | - | -2.7 |

**Dyddiad Cychwyn: COB 17 Gorffennaf 2023**

**Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2023**

| Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa |
|---|
| Gwerth ac elw difidend uchel oedd yr arddulliau a berfformiodd orau dros y chwarter. Fe wnaeth twf danberfformio'n gyffredinol yn y farchnad, a stociau cap bach wedi hynny. Ynni oedd y sector gorau yn sgil prisiau olew cynyddol, mae tan-bwysau'r Gronfa i'r sector yma wedi gyrru tanberfformiad. Roedd sectorau tebyg i bondiau (Cyfleustodau, Eiddo Tirol) yn wan, wrth i'r premiwm am fondiau godi'n sylweddol. Gwyrodd y Gronfa i ffwrdd o gapiau mawr eto fyth, gan dynnu oddi ar y perfformiad. Ond fe wnaeth y gwyriad tuag at werth gyfrannu'n bositif at berfformiad dros y cyfnod. |

## Sylwadau ar y Gronfa Marchnadoedd Dabtlygol

Fe berfformiodd Marchnadoedd Datblygol yn well na'r mynegai. Yn wahanol i'w safle gwael yn yr ail chwarter, Twrci a berfformiodd orau dros y chwarter diwethaf. Cyrhaeddodd ecwitis y cyfraddau uchaf erioed wrth i fuddsoddwyr tramor ddychwelyd i'r farchnad, ar ôl i'r banc canolog godi cyfraddau llog 250 bps, 750 bps a 500 bps ym mis Gorffennaf, Awst a Medi yn eu trefn, gan ddod â chostau benthyca i'w huchaf ers mis Medi 2003. Mae buddsoddwyr wedi cael eu hannog gan dystiolaeth bod y wlad yn mabwysiadu polisi ariannol mwy confensiynol. Fe wnaeth Yr Aifft hefyd berfformio'n dda, gyda'r mynegai EGC yn cyrraedd yr uchaf eto yn sgil buddsoddwyr yn ceisio gwarchod eu cynilion rhag chwyddiant eithriadol. Yn ogystal, fe wnaeth United Arab Emirates, Malaysia ac India gofnodi enillion negatif amlwg. Roedd Chile, Gwlad Pŵyl a'r Ariannin ymysg y rhai a berfformiodd waethaf.

## Cronfa Cyfleoedd Ecwiti EM:

| | Tri Mis | 1 Flwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | 0.2 | 3.4 | -6.7 |
| **Net** | 0.1 | 2.9 | -7.1 |
| **Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI + 1.5%** | 1.5 | 3.7 | -5.2 |
| **Gwarged enillion (gros)** | -1.3 | -0.3 | -1.5 |

Targed Perfformiad yw Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI + 1.5%

**Dyddiad Cychwyn: 20 Hydref 2021**

**Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2023**

| Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa |
|---|
| O fewn amgylchedd y marchnadoedd datblygol, bu amlygiad positif y Gronfa i fomentwm yn gyfraniad positif. Fodd bynnag, fe dynnodd rhai pethau oddi ar y perfformiad – y dewis stociau tu mewn i Tsieina, ac ymysg cwmnïau nwyddau dewisol cwsmeriaid (gorbwysau at Ecovacs Robotics, tanbwysau at y manwerthwr ar-lein, PDD). Roedd y dewis stociau ym Mrasil hefyd yn negyddol (gorbwysau Banco Bradesco). Ar lefel y wlad, nid oedd tan-bwysau at India yn gweddu i amgylchedd y farchnad. Fodd bynnag, roedd tan-bwysau at, a'r dewis stociau yn Taiwan (tan-bwysau at TSMC, y cwmni enfawr gweithgynhyrchu *semiconductor*, gorbwysau i gwmnïau llai) wedi lliniaru tanberfformiad pellach. |

## Sylwadau ar Farchnad y DU

Fe wnaeth ecwitis y DU berfformio'n well na marchnadoedd eraill a'r mynegai ehangach (mewn doleri) oherwydd perfformiad cryf gan y sector ynni. Fe wnaeth Banc Lloegr (BoE) godi cyfraddau llog 25 bps ym mis Awst ond eu gadael heb eu newid ym mis Medi, ar 5.25%. Gan rybuddio y byddai costau benthyca yn aros yn uchel am o leiaf y ddwy flynedd nesaf, honnodd y banc fod yr economi wedi bod yn fwy gwydn na'r disgwyl ac mai twf cryf mewn cyflogau oedd y prif reswm am gyfraddau llog uwch. Yn ddiweddarach yn y chwarter, roedd ffigyrau addasedig gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol yn cefnogi honiad y BoE, gan ddangos bod yr economi wedi adfer o'r pandemig yn gynt nag a ragamcanwyd o'r blaen. Yn yr ail chwarter, roedd GDP 1.8% yn uwch na'r lefel cyn y pandemig yn chwarter olaf 2019, yn hytrach na'r amcangyfrif cychwynnol o gywasgiad o 0.2%.

## Cronfa Cyfleoedd Ecwiti'r DU:

| | Tri Mis | 1 Flwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | 2.1 | 20.4 | 3.7 |
| **Net** | 2.0 | 19.9 | 3.3 |
| **FTSE All Share** | 1.9 | 13.8 | 4.1 |
| **Gwarged enillion (gros)** | 0.2 | 6.5 | -0.4 |

**Dyddiad Cychwyn: 23 Medi 2019**

**Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2023**

| Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa |
|---|
| Mae gorbwysau'r Gronfa i Ansawdd a'r tanbwysau i Anwadalrwydd Isel wedi cefnogi'r perfformiad dros y chwarter. Fe wnaeth yr amlygiad i werth helpu i hybu perfformiad wrth i stociau gwerth berfformio'n dda dros y cyfnod. Fe wnaeth JO Hambro a Ninety-One elwa'n arbennig o'u hamlygiad i werth. Gyda stociau cap bach yn perfformio'n waeth na chapiau mawr, mae amlygiad y Gronfa i gapiau bach wedi llesteirio'r perfformiad. |

## Sylwadau ar y Farchnad Incwm Sefydlog

Roedd y Mynegai Bond Agregau Byd-eang Bloomberg (USDH) i lawr 1.8% dros y chwarter. Profodd marchnadoedd bondiau corfforaethol anawsterau, tra bu cynnydd yn enillion bondiau'r llywodraeth. Mae sylwadau chwyrn parhaus gan swyddogion y banc canolog, a phrisiau olew andros o uchel wedi effeithio ar optimistiaeth buddsoddwyr, gan beri addasiad i ddisgwyliadau cyfraddau llog. Fe wnaeth enillion bondiau deng mlynedd y llywodraeth gyrraedd uchafbwynt newydd yn y flwyddyn gyfredol yn yr UDA a pharth yr Erwo. Roedd credyd corfforaethol 'high yield' wedi perfformio'n well na'r hyn a gyfatebai mewn buddsoddiad. Fe wnaeth y Federal Reserve (Fed) a Banc Lloegr (BoE) ill dau godi cyfraddau llog 25 pwynt sail (bps) yn gynnar yn y chwarter, ond fe'u gadawsant heb eu newid yn eu cyfarfodydd ym mis Medi. Fe wnaeth Banc Canolog Ewrop (ECB) godi cyfraddau ddwywaith, 25bps bob tro – daeth hyn â nhw i'r ffigwr uchaf erioed o 4.0%.

## Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang:

| | Tri Mis | 1 Flwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | -2.3 | 0.7 | -4.3 |
| **Net** | -2.5 | 0.5 | -4.5 |
| **FTSE World Gvt Bond Index (GBP Hedged)** | -2.5 | -0.7 | -5.4 |
| **Gwarged enillion (gros)** | -0.2 | 1.4 | 1.1 |

**Dyddiad Cychwyn: 30 Gorffennaf 2020**

**Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2023**

| Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa |
|---|
| Roedd tanbwysau'r Gronfa i fondiau Japaneaidd 10-mlynedd meincnod yn gyfrannwr allweddol yn y chwarter hwn. Roedd safle gilt y DU yn gweddu i amgylchedd y farchnad, yn enwedig tuag at faterion dyddiad byr gan i'r enillion hynny ddirywio o'r lefelau uwch a welwyd yn y chwarter blaenorol. Fe wnaeth tanbwysau i fondiau craidd parth yr Ewro hefyd gyfrannu'n gadarnhaol. Yn wahanol i'r ail blaenorol, fe wnaeth gorbwysau i gyfraddau Mecsico dynnu oddi ar y perfformiad yn y cyfnod hwn. |

## Cronfa Credyd Byd-Eang:

| | Tri Mis | 1 Flwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | -1.7 | 2.8 | -4.9 |
| **Net** | -1.8 | 2.6 | -5.0 |
| **Bloomberg Barclays Global Agg Credit Index (GBP Hedged)** | -1.8 | 3.1 | -4.7 |
| **Gwarged enillion (gros)** | 0.1 | -0.3 | -0.1 |

**Dyddiad Cychwyn: 27 Gorffennaf 2020**

**Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2023**

| Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa |
|---|
| Fe wnaeth gorbwysiad y Gronfa i enillion uchel Ewropeaidd (ariannol) a chredyd graddfa buddsoddi gyfrannu'n gadarnhaol. Bu'r amlygiad gorbwysau i gyfrannau credyd enillion uchel yr UD yn gymorth hefyd. Fodd bynnag, fe wnaeth tanbwysau i elfennau diwydiannol a chyfleustodau graddfa buddsoddi yr UD dynnu oddi ar y perfformiad. Mewn dyledion marchnadoedd datblygol arian caled, bu tanbwysau i gredyd graddfa buddsoddi yn Asia, Ewrop ac America Ladin yn aneffeithiol. |

## Cronfa Credyd Aml-ased:

| | Tri Mis | 1 Flwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | 0.1 | 10.4 | 0.4 |
| **Net** | 0.0 | 10.0 | 0.1 |
| **3 Mis GBP Sonia + 4%** | 2.3 | 8.3 | 5.6 |

Targed Perfformiad yw 3 Mis GBP SONIA + 4%, nid ydym wedi dangos y gwarged enillion gan mai targed yw hwn.

**Dyddiad Cychwyn: 27 Gorffennaf 2020**

**Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2023**

| Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa |
|---|
| Fel yn yr ail chwarter, roedd enillion uchel (HY) yn gryfach na dyled corfforaethol graddfa buddsoddi, ar wahân i US HY lle ehangodd y taeniadau. Fe wnaeth amlygiad y Gronfa i'r dosbarth is-asedau helpu i gyflawni dros y cyfnod. Yn yr amgylchedd o gyfraddau llog sy'n codi, fe wnaeth amlygiad y Gronfa i fenthyciadau banc drwy ICG helpu i leddfu tanberfformiad. Bu amlygiad y Gronfa i arian cyfred lleol Marchnadoedd Datblygol yn ffactor a dynnodd oddi ar y perfformiad oherwydd cryfder doler yr UD dros y cyfnod. Bu perfformiad positif gan Voya drwy amlygiad i warantau preswyl a gefnogir gan forgeisi yn gymorth i leddfu tanberfformiad pellach dros y chwarter. |

## Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt:

| | Tri Mis | 1 Flwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | 2.7 | 6.3 | 2.9 |
| **Net** | 2.6 | 5.9 | 2.6 |
| **3 Mis GBP SONIA + 2%** | 1.8 | 6.2 | 3.7 |

Targed Perfformiad yw 3 Mis GBP SONIA + 2%, nid ydym wedi dangos y gwarged enillion gan mai targed yw hwn.

**Dyddiad Cychwyn: 30 Medi 2020**

**Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2023**

| Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa |
|---|
| Roedd amlygiad y Gronfa i enillion uchel yn brif yrrwr ei berfformiad uchel dros y chwarter wrth i daeniadau dynhau. Cynyddodd anwadalrwydd y farchnad dros y chwarter oherwydd y disgwyliad y byddai cyfraddau llog yn uwch am hirach. Cafodd buddsoddwyr eu denu at warantau gydag asedau (ABS) oedd yn cynyddu gwerth y gwarantau hyn. Fe wnaeth amlygiad y Gronfa i ABS drwy Aegon gyfrannu at ei berfformiad uwch dros y chwarter. |

## Cronfa Credyd Sterling:

| | Tri Mis | 1 Flwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Gros** | 2.4 | 8.4 | -4.6 |
| **Net** | 2.4 | 8.3 | -4.8 |
| **Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling plus 0.65%** | 2.4 | 8.1 | -5.0 |
| **Gwarged enillion (Gros)** | 0.0 | 0.3 | 0.4 |

**Dyddiad Cychwyn: 27 Gorffennaf 2020**

**Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Medi 2023**

| Sylwadau Cyffredinol ar y Gronfa |
|---|
| Yn ystod y chwarter, fe berfformiodd y gronfa yn unol â'r meincnod, gan ddychwelyd 2.2% gyda'r sefyllfa gredyd yn cefnogi dychweliadau tra bod sefyllfa 'term structure' wedi tynnu oddi ar y perfformiad. Fe wnaeth sefyllfa credyd beta gorbwysau gefnogi enillion wrth i daeniadau credyd dynhau'n fras dros y chwarter ymysg arwyddion o welliant mewn hyder cwsmeriaid a gobeithion bod cyfraddau llog wedi cyrraedd eu huchaf. Ar lefel sector, fe wnaeth y sefyllfa orbwysau mewn banciau a brocerwyr, yswiriant a chyfranddaliadau ariannol eraill, gefnogi perfformiad. Fe wnaeth ein sefyllfa orbwysau mewn hen ddyledion Credit Suisse (UBS erbyn hyn) gyfrannu at perfformiad, wrth i ni fanteisio ar y gwahaniaeth taeniad rhwng Credit Suisse ac UBS, ar adeg cyhoeddi'r uniad. Fe wnaeth ein sefyllfa danbwysau mewn enwau quasi/sofren megis KFW a'r Banc Buddsoddi Ewropeaidd ddirywio'r perfformiad. O ran parhad y gronfa, fe wnaeth sefyllfa orbwysau ym mharhad yr Ewro ddirywio'r perfformiad wrth i fanciau canolog gadw at eu neges i gadw cyfraddau'n uwch am yn hirach. Fe wnaeth sefyllfa anffodus parhad y bunt hefyd dynnu oddi ar berfformiad. Mae enillion gilt yn parhau'n anwadal, ac fe wnaethant gynyddu yn ystod y chwarter. Fodd bynnag, adferodd Giltiau wrth i ddata twf gwannach orfodi buddsoddwyr i ostwng eu disgwyliadau ar gyfer cyfraddau terfynol.<br><br>Fe wnaeth bondiau'r DU ddatgan enillion positif dros y chwarter, gyda bondiau corfforaethol yn perfformio'n well na bondiau'r llywodraeth. O ran credyd corfforaethol, gwelwyd taeniadau credyd yn tynhau ymysg arwyddion o welliant mewn hyder cwsmeriaid a gobeithion bod cyfraddau llog wedi cyrraedd eu huchaf. Fe wnaeth Banc Canolog Ewrop (ECB) godi cyfraddau llog 25 pwynt sail ym mis Gorffennaf, fodd bynnag, roedd y naws cyffredinol yn symud mewn cyfeiriad goddefol (*dovish*). Ymhellach fyth, roedd yr ECB o'r farn fod y rhagolygon ar gyfer chwyddiant yn ansicr iawn, gan felly bwysleisio cadw at ddull sy'n dibynnu ar ddata, a bwrw ymlaen fesul cyfarfod. Fodd bynnag, parhâi buddsoddwyr i fod yn bwyllog ynghylch y posibilrwydd o ragor o dynhau ariannol gan yr ECB ar gefn data economaidd cymysg. Gwerthwyd trysorlysoedd y UD ar ddechrau'r chwarter ymysg y farchnad lafur dynn a safbwynt eithaf chwyrn gan yr US Federal Reserve (Fed). Parhaodd y patrwm yma pan fu i'r asiantaeth graddfa credyd, Fitch, ostwng graddfa credyd hirdymor llywodraeth yr UD o AA+ i AAA oherwydd pryderon am faterion ariannol a materion yn ymwneud â'r llywodraeth. |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **22 IONAWR 2024** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2023-24<br>ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **Mae Cod Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Yn ystod y cyfnod chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023, arhosodd gweithgaredd benthyca a buddsoddi'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu. Ymhellach, amcangyfrifir bydd gwir incwm buddsoddi'r Cyngor yn uwch na'r incwm disgwyliedig yng nghyllideb 2023/24.**

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn). Mae'r adroddiad yma yn darparu diweddariad canol blwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y gofyniad newydd yng Nghod 2021, sy'n orfodol o 1 Ebrill 2023, i adrodd yn chwarterol ar ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u hymgorffori yn adroddiadau chwarterol arferol y Cyngor.

Penderfynwyd yn y Pwyllgor Pensiynau, 27 Mawrth 2023 i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn gael ei gronni a'i gyd- fuddsoddi â llif arian cyffredinol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

## 2. CYD-DESTUN ALLANOL

**Y cefndir economaidd:** Arhosodd chwyddiant y DU yn ystyfnig o uchel dros lawer o'r cyfnod o'i gymharu â'r Unol Daleithiau a pharth yr ewro, gan gadw disgwyliadau'n uwch o faint ymhellach y byddai Banc Lloegr (BoE) yn codi cyfraddau o'i gymharu â'r rhanbarthau. Fodd bynnag, mae data chwyddiant a gyhoeddwyd yn rhan olaf y cyfnod yn tanseilio disgwyliadau, gan achosi i farchnadoedd ariannol ailasesu'r brig yng Nghyfradd Banc BoE. Dilynwyd hyn yn fuan iawn wedyn gan y BoE yn penderfynu cadw'r cyfradd banc ar 5.25% ym mis Medi, yn erbyn y disgwyl am gynnydd arall o 0.25%.

Arhosodd twf economaidd yn y DU yn gymharol wan dros y cyfnod. Yng nghalendr Ch2 2023, ehangodd yr economi 0.2%. Fodd bynnag, dangosodd data CMC misol grebachiad o 0.5% ym mis Gorffennaf, y gostyngiad mwyaf hyd yma yn 2023 ac yn waeth na'r gostyngiad o 0.2%

a ragfynegwyd a allai fod yn arwydd bod y cylch tynhau ariannol yn dechrau achosi dirwasgiad neu o leiaf amodau economaidd llonydd.

Dangosodd data mis Gorffennaf fod y gyfradd ddiweithdra wedi cynyddu i 4.3% (3 mis /flwyddyn)  tra bod y gyfradd cyflogaeth wedi codi i 75.5%. Roedd twf cyflog yn 8.5% ar gyfer cyfanswm tâl (gan gynnwys taliadau bonws) a 7.8% ar gyfer tâl rheolaidd, sef y gyfradd twf blynyddol uchaf a gofnodwyd ar gyfer yr olaf. Gan addasu ar gyfer chwyddiant, roedd twf cyflog mewn termau real yn gadarnhaol ar 1.2% a 0.6% ar gyfer cyfanswm tâl a chyflog rheolaidd yn y drefn honno.

Parhaodd chwyddiant i ostwng o'i uchafbwynt wrth i'r CPI pennawd blynyddol ostwng i 6.7% ym mis Gorffennaf 2023 o 6.8% yn y mis blaenorol yn erbyn disgwyliadau ar gyfer tic yn ôl hyd at 7.0%. Daeth y cyfraniad mwyaf ar i lawr o brisiau bwyd. Roedd y gyfradd graidd hefyd yn synnu ar yr anfantais, gan ostwng i 6.2% o 6.9% o'i gymharu â rhagfynegiadau iddo ymylu i lawr i 6.8%.

Parhaodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr i dynhau polisi ariannol dros y rhan fwyaf o’r cyfnod, gan godi’r Gyfradd Banc i 5.25% ym mis Awst. Yn erbyn disgwyliadau cynnydd pellach ym mis Medi, pleidleisiodd y Pwyllgor 5-4 i gadw Cyfradd y Banc ar 5.25%. Roedd pob un o'r pedwar anghydffurfwyr o blaid cynnydd arall o 0.25%.

Cymedrolodd disgwyliadau cyfradd banc marchnad arian dros y cyfnod wrth i chwyddiant is a data gwan roi rhyw arwydd bod cyfraddau llog uwch yn gweithio. Gostyngodd y disgwyliadau o ragweld uchafbwynt o dros 6% ym mis Mehefin i 5.5% ychydig cyn cyfarfod yr MPC ym mis Medi, ac i ddisgwyl wedyn mai 5.25% fyddai’r uchafbwynt erbyn diwedd y cyfnod.

Yn dilyn cyfarfod yr MPC ym mis Medi, diwygiodd Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, ei ragolwg llog yn gymedrol i adlewyrchu’r farn ganolog mai 5.25% fydd yr uchafbwynt yn y Gyfradd Banc erbyn hyn. Yn y tymor byr mae'r risgiau os bydd chwyddiant yn cynyddu eto, ond dros y rhan sy'n weddill o'r gorwel amser mae’r anfantais o risg ble bydd gweithgaredd economaidd yn gwanhau'n fwy na'r disgwyl.

Mae effaith araf y polisi ariannol ynghyd ag aeddfedrwydd morgeisi cyfnod penodol dros y 12-24 mis nesaf yn golygu nad yw aelwydydd wedi teimlo effaith lawn codiadau Cyfradd y Banc eto. Fel y cyfryw, er bod hyder defnyddwyr yn parhau i wella dros y cyfnod, tarodd mesur GfK -21 ym mis Medi, mae'n debygol y bydd hyn yn gwrthdroi ar ryw adeg. Bydd cyfraddau uwch hefyd yn effeithio ar fusnes ac yn ôl data arolwg S&P/CIPS, contractiodd sector gweithgynhyrchu a gwasanaethau’r DU yn ystod y chwarter gyda phob mesur yn sgorio o dan 50, gan ddangos crebachiad yn y sectorau.

Cynyddodd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau ei chyfradd llog allweddol i 5.25-5.50% dros y cyfnod, gan oedi ym mis Medi yn dilyn cynnydd o 0.25% y mis blaenorol, gan nodi efallai nad yw wedi cwblhau ei gylch tynhau ariannol yn llwyr.

Ar ôl gostwng trwy gydol 2023, dechreuodd chwyddiant blynyddol yr UD godi eto ym mis Gorffennaf 2023, gan godi o 3% ym mis Mehefin, a oedd yn cynrychioli'r lefel isaf ers mis Mawrth 2021, i 3.2% ym mis Gorffennaf ac yna neidio eto i 3.7% ym mis Awst, gan guro disgwyliadau am gynnydd i 3.6%. Cynnydd mewn prisiau olew oedd prif achos y cynnydd. Cofrestrodd twf CMC yr UD 2.1% yn flynyddol yn ail chwarter calendr 2023, i lawr o'r amcangyfrif cychwynnol o 2.4% ond yn uwch na'r ehangiad o 2% a welwyd yn y chwarter cyntaf.

Cynyddodd Banc Canolog Ewrop ei gyfraddau blaendal allweddol, prif ail-ariannu, a llog benthyca ymylol i 4.00%, 4.50% a 4.75% yn y drefn honno ym mis Medi, gan awgrymu y

gallai'r lefelau hyn gynrychioli'r brig mewn cyfraddau ond hefyd gan bwysleisio y byddai cyfraddau'n aros yn uchel cyhyd yn ôl yr angen i ddod â chwyddiant i lawr i'r targed.

Er ei fod yn parhau i ostwng yn gyson, mae chwyddiant wedi bod yn ludiog, gostyngodd CPI pennawd blynyddol Ardal yr Ewro i 5.2% ym mis Awst tra gostyngodd chwyddiant craidd blynyddol i 5.3% ar ôl aros ar 5.5% yn y ddau fis blaenorol. Mae twf CMC yn parhau i fod yn wan, gyda data diweddar yn dangos bod y rhanbarth wedi ehangu dim ond 0.1% yn y tri mis hyd at fis Mehefin 2023, y gyfradd fel y chwarter blaenorol.

**Marchnadoedd ariannol:** Roedd teimlad y farchnad ariannol ac enillion bondiau yn parhau'n gyfnewidiol, gyda'r olaf yn tueddu i ostwng yn gyffredinol gan fod arwyddion bod chwyddiant, er ei fod yn dal yn uchel, yn gymedrol a chyfraddau llog ar eu hanterth.

Gostyngodd cynnyrch giltiau tua diwedd y cyfnod. Cododd cynnyrch giltiau meincnod 5 mlynedd y DU o 3.30% i uchafbwynt o 4.91% ym mis Gorffennaf cyn tueddu i ostwng i 4.29%, cododd y cynnyrch gilt 10 mlynedd o 3.43% i 4.75% ym mis Awst cyn gostwng i 4.45%, a cynnyrch yr 20 mlynedd o 3.75% i 4.97% ym mis Awst ac yna syrthio'n ôl i 4.84%. Roedd y Gyfradd Sterling Dros Nos (SONIA) ar gyfartaledd yn 4.73% dros y cyfnod.

**Adolygiad credyd:** Ar ôl cwblhau adolygiad o'i gyngor credyd ar adneuon ansicredig mewn banciau yn y DU a'r tu allan i'r DU yn dilyn pryderon am argyfwng ariannol ehangach ar ôl cwymp pryniant Silicon Valley Bank o Credit Suisse gan UBS, yn ogystal â materion eraill y sector bancio sydd wedi cael cyhoeddusrwydd da, ym mis Mawrth gostyngodd Arlingclose y terfyn hyd uchaf a argymhellir ar gyfer pob banc ar ei restr gwrthbarti a argymhellir i 35 diwrnod. Parhaodd y barn yma hyd at ddiwedd y cyfnod.

Yn ystod ail chwarter y cyfnod, diwygiodd Moody y rhagolygon ar Svenska Handelsbanken i negyddol o sefydlog, gan nodi pryderon ynghylch y sector eiddo tiriog yn Sweden.

Ar ôl rhoi sgôr sofran yr Unol Daleithiau ar 'Rating Watch Negative' yn gynharach yn y cyfnod, cymerodd Fitch gamau pellach ym mis Awst, gan israddio'r sgôr hirdymor i AA+, yn rhannol yn ymwneud â phryderon nenfwd dyled parhaus ond hefyd dirywiad cyllidol disgwyliedig dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Yn dilyn cyhoeddi hysbysiad Adran 114, ym mis Medi cynghorodd Arlingclose yn erbyn ymgymryd â benthyciadau newydd i Gyngor Dinas Birmingham, ac yn ddiweddarach yn y mis torrodd yr hyd a argymhellir ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Warrington i uchafswm o 100 diwrnod.

Parhaodd Arlingclose i fonitro ac asesu lefelau cyfnewid diffyg credyd am arwyddion o straen credyd parhaus ac er na wnaed unrhyw newidiadau i'r cyfnodau a argymhellwyd dros y cyfnod, ychwanegwyd Northern Trust Corporation at y rhestr gwrthbartïon.

Disgwylir i ansefydlogrwydd cynyddol y farchnad barhau i fod yn nodwedd, o leiaf yn y tymor agos ac, fel erioed, mae'r sefydliadau a'r cyfnodau ar restr gwrthbartïon y Cyngor a argymhellir gan Arlingclose yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.

## 3. GWEITHGAREDD BUDDSODDI TRYSORLYS

Mae Cod TM diwygiedig CIPFA yn diffinio buddsoddiadau rheoli'r trysorlys fel y rhai sy'n codi o lif arian y Cyngor neu weithgaredd rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bod angen yr arian parod i'w ddefnyddio yn ystod busnes.

Mae gan y Cyngor gronfeydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn ystod y 6 mis, roedd balans

buddsoddiadau'r Cyngor yn amrywio rhwng £139.5 a £223.4 miliwn oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Dangosir sefyllfa'r buddsoddiadau yn ystod y cyfnod yn y tabl isod:

**Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | 31.3.23 Balans £m | Symudiad 6 mis £m | 30.9.23 Balans £m | 30.9.23 Incwm % |
|---|---|---|---|---|
| Banciau a chymdeithasau adeiladu (ansicredig) | 29.1 | (7.4) | 21.7 | 5.21 |
| Awdurdodau Lleol | 20.1 | 44.9 | 65.0 | 5.19 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 60.8 | (2.8) | 58.0 | 5.27 |
| Cronfeydd Cyfun | 8.7 | 2.8 | 11.5 | 5.13 |
| Swyddfa Rheoli Dyledion | 34.0 | (0.9) | 33.1 | 5.27 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **152.7** | **36.6** | **189.3** | |

Mae Cod CIPFA a chanllaw'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

Dangosir dilyniant metrigau risg ac enillion yn y dyfyniadau o feincnodi buddsoddiad chwarterol Arlingclose yn y tabl isod.

| | Sgôr Risg | Statws Credyd | Datguddiad 'Bail-in' | Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (diwrnodau) | Cyfradd Adennill % |
|---|---|---|---|---|---|
| 31.03.2023 | 4.63 | A+ | 62% | 33 | 4.04 |
| 30.09.2023 | 4.57 | A+ | 45% | 47 | 5.23 |
| **AL tebyg** | **4.21** | **AA-** | **29%** | **86** | **4.89** |
| **Bob AL** | **4.47** | **AA-** | **59%** | **13** | **4.79** |

Cynyddodd y Gyfradd Banc 1%, o 4.25% ar ddechrau mis Ebrill i 5.25% erbyn diwedd mis Medi. Cododd cyfraddau arian parod dyddiad byr yn gymesur, gyda chyfraddau 3 mis yn codi i tua 5.25% a chyfraddau 12 mis i bron i 6%. Cododd y cyfraddau ar adneuon DMADF hefyd, yn amrywio rhwng 4.8% a 5.4% erbyn diwedd mis Mehefin a Chyfraddau'r Farchnad Arian rhwng 4.9% a 5.3%.

Dalier £13m o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cronfeydd eiddo, aml-ased ac ecwiti cyfun strategol a reolir yn allanol lle mae diogelwch a hylifedd tymor byr yn llai o ystyriaeth, ac yn hytrach yr amcanion yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Gan nad oes dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig gan y cronfeydd hyn, ond maent ar gael i'w tynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, mae eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcan buddsoddi'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gweler perfformiad ein cronfeydd eiddo, aml-ased ac ecwiti cyfun hyd at 30 Medi 2023 isod:

STRATEGIC POOLED FUND PORTFOLIO — GWYNEDD — From: 30/09/2022 To: 30/09/2023

| FUND NAME | ASSET CLASS | No of Units Held in Period | Current Value £ | Capital Growth £ | Dividends Earned £ | Holding Period (yrs) | Capital Return | Income Return | Total Return | Volatility |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AEGON (KAMES) DIVERSIFIED MONTHLY INCOME FUND | MULTI ASSET | 1,158,480 | 1,082,514 | 34,230 | 65,039 | 1.0 | 3.27% | 6.20% | 9.47% | 7.9% |
| CCLA - LAMIT PROPERTY FUND | PROPERTY | 1,524,344 | 4,269,535 | -949,819 | 202,067 | 1.0 | -18.20% | 3.87% | -14.33% | 8.9% |
| NINETY ONE (INVESTEC) DIVERSIFIED INCOME FUND | MULTI ASSET | 1,228,153 | 1,085,123 | 4,735 | 43,617 | 1.0 | 0.44% | 4.04% | 4.48% | 4.1% |
| PAYDEN ABSOLUTE RETURN BOND FUND | ABSOLUTE RETURN | 233,541 | 1,991,803 | -8,197 | 10,509 | 0.0 | -0.41% | 0.53% | 0.12% | 0.1% |
| SCHRODER INCOME MAXIMISER FUND | EQUITY - UK | 7,675,245 | 3,046,305 | 221,954 | 168,782 | 0.7 | 7.86% | 5.98% | 13.83% | 13.8% |
| GRAND TOTAL | | | 11,475,279 | -697,098 | 490,014 | 0.8 | -5.73% | 4.03% | -1.70% | 4.7% |

Unrealised capital loss since purchase: -1,524,722 Annualised income return: 5.13%

Mae'n amlwg bod y gwerth cyfalaf cyfun o £11.475m yn llai na'r buddsoddiad cychwynnol o £13m. Gwneir buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed blynyddoedd; ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn uwch na chyfraddau llog arian parod. Byddwn yn cynnal ein buddsoddiad yn y tymor canolig.

## 4. PERFFORMIAD RHEOLAETH TRYSORLYS

### i. Cyfyngiadau Buddsoddi

| | Uchafswm Gwrthbarti yn y cyfnod | Gwir Gwrthbarti 30.9.23 | 2023/24 Terfyn Gwrthbarti | Cydym-ffurfio |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | £95.3m | £33.1m | Diderfyn | ✓ |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | £5m | £5m | £10m | ✓ |
| Buddsoddiadau â sicrwydd | £0m | £0m | £10m | ✓ |
| Banciau (ansicredig) | £5m | £5m | £5m | ✓ |
| Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) | £5m | £5m | £5m | ✓ |
| Darparwyr cofrestredig (ansicredig) | £0m | £0m | £5m | ✓ |
| Cronfeydd marchnad arian | £10m | £10m | £10m | ✓ |
| Cronfeydd cyfun strategol | £5m | £5m | £10m | ✓ |
| Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real | £0m | £0m | £10m | ✓ |
| Buddsoddiadau eraill | £0m | £0m | £5m | ✓ |

**ii. Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Tymor hir**

Pwrpas y dangosydd canlynol yw rheoli pa mor agored yw’r Cyngor i’r risg o achosi colledion trwy geisio ad-daliad cynnar o’i fuddsoddiadau. Y terfynau darbodus ar y terfynau rheoli trysorlys hirdymor yw:

| | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** | **Dim Dyddiad Penodol** |
|---|---|---|---|---|
| Y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £15m | £0m | £0m | £0m |
| Terfyn ar brifswm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £40m | £20m | £20m | £20m |
| **Cydymffurfio** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**iii. Dangosyddion Ychwanegol:**

Mae’r Cyngor yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli’r trysorlys gan ddefnyddio’r dangosyddion canlynol:

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwysoli gan amser yn ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo drwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli gan hyd pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

| | **Gwir 30.09.23** | **Targed 2023/24** | **Cydymffurfio** |
|---|---|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 4.57 | Sgôr o 6.0 neu lai | ✓ |

**Hylifedd:** Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o’i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro faint o arian sydd ar gael i dalu taliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

| | **Gwir 30.09.23** | **Targed 2023/24** | **Cydymffurfio** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £147.8m | £10m | ✓ |

**Datguddiad Cyfraddau Llog**: Mae’r dangosydd hwn wedi’i osod i reoli pa mor agored yw’r Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog oedd:

| | **Gwir 30.09.23** | **Terfyn 2023/24** | **Cydymffurfio** |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog | £1,485,115 | £1,039,420 | X |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gwymp o 1% mewn cyfraddau llog | £1,485,115 | £1,039,420 | X |

Ni chydymffurfiwyd â'r dangosydd hwn oherwydd gosodwyd y dangosydd pan oedd cyfraddau llog yn isel, ond mae lefelau llog wedi codi'n sylweddol yn y flwyddyn heb rybudd ac felly mae'n rhesymol bod y symiau yn uwch na'r terfyn.

### iv. Perfformiad Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol ei weithgareddau rheoli trysorlys o ran ei effaith ar y gyllideb refeniw a'i berthynas â meincnod cyfraddau llog.

Cyllideb incwm buddsoddi'r Cyngor am y flwyddyn yw £1.9m, ond amcangyfrifir bod yr incwm buddsoddi disgwyliedig gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn sylweddol uwch yn £3.0m oherwydd cynnydd yn y gyfradd sylfaenol a chynnydd a ragwelir yn y dyfodol.

## 5. HYFFORDDIANT BUDDSODDI

Yn ystod y cyfnod, mae swyddogion wedi mynychu hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA sy'n berthnasol i'w swyddi.

## 6. ARGYMHELLIAD

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **22 IONAWR 2024** |
| TEITL: | **CYMERADWYO CYLLIDEB 2024/25** |
